

## Cofnodion Cyfarfod 1af Rhagfyr 2020

**Presennol :-** Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams. Rhian Evans-Hill, Richard Llwyd Jones a Lowri Hughes  
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

### **Ymddiheuriadau.**

Idris Thomas, Emma Chappell, ac Aled Green

### **Croeso a Gweddi**

Rhodddwyd gair o groeso i bawb gan Y Cadeirydd a gair o weddi gan Richard LL. Jones.

### **Datgan buddiant**

Cadarnhawyd fod pawb wedi cytuno ac yn datgan buddiant yng nghyfarfod Tachwedd ar bwynt rhoddion blynyddol i fudiadau. Mae'r clerc angen rhestr yn flynyddol o'r datgan lle bo aelod yn perthyn i fudiad neu fod rheswm efallai bod yna fuddiant arall. Atgoffwyd pawb i yrru hyn i'r clerc mor fuan ag sydd bosib os gwelwch yn dda.

## Cofnodion Cyfarfod 3ydd Tachwedd 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

R. Hefin Williams (1)

Phyllis Ellis (2)

### **Materion o'r cofnodion**

**Cyfyngiadau Parcio** - Mae'r Cyngor Sir wedi derbyn sawl cwyn am y cynllun yn Allt Ddu, felly, bydd trafodaethau pellach yn mynd ymlaen am hyn. Y broblem fwyaf a welir ydi, fod pobl yn mynd i barhau i dyrru yno, ac am barcio yn y pentref ei hun fydd yn creu mwy o broblem fyth. Y gwir ydi mi barcian yn rhywle, ac yn sicr mae angen gwell darpariaeth yno, a maes parcio fyddai'n ateb yr angen.

**Cynllunio** - Derbyniwyd llythyr cynhwysfawr o'r adran cynllunio yng Nghyngor Gwynedd yn dilyn ein cwyn am geisiadau cynllunio, ond eto ni chafwyd ymateb i pam na chawsom wybodaeth am y ceisiadau cynllunio na chawsom gyfle i roi barn.

**Llythyrau Diolch** - Derbyniwyd ymateb o ddiolch am rodd ariannol gan: Clwb Pêl Droed Ieuencid Bethel, Llais Ogwan, Neuadd Bentref Rhiwlas, Clwb Bowlio Bethel a Chlwb Snwcer Bethel.

**Arbed** - Derbyniwyd llythyr gan Siân Gwenllïan AS yn datgan ei bod wedi cael cyfle i holi Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd am ddiweddariad y cynllun Arbed yn Arfon. Mae gobaith o gael adroddiad yn ôl o fewn mis gyda'r camau nesaf.

**Caeau Chwarae** - wedi derbyn 1 amcan bris ar adroddiad, dal i ddisgwyl am un arall cyn penderfynu'r camau nesaf.

**Diffib Rhiwlas** - Derbyniwyd llythyr yn datgan eu siom, na chafwyd rhodd ychwanegol, ond eto yn derbyn y rhesymeg dros hynny. Search hynny, rydym dal angen rhoi sylw i ddiffyg ar y golau yn y ciosg sydd yn gartref i'r diffriblydd cyntaf. Cytunwyd I gysylltu â'r trydanwr i gael amcan bris ar gyfer newid y golau fel ei fod ymlaen yn ystod y nos.

### **Gohebiaethau a Materion Eraill**

**Cyfyngiadau Parcio Allt Rhiwlas** - Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cefnogi'r cynllun i osod llinellau dwbl ar yr allt.

**Bafta Cymru** - Nodwyd fod Trystan Ellis Morris o Ddeiniolen, ynghyd a'r cyd gyflwynwraig

Emma Walford wedi derbyn gwobr am gyflwyno'r rhaglen Prosiect Pum Mil ar S4C. Penderfynwyd llythyru i'w longyfarch.

### **Ceisiadau Cynllunio**

#### **C20/0902/18/CC - 1 Dinorwic House, Dinorwig**

Torri Coeden onnen a lleihau 3m o goeden sycamorwydden sy'n destun gorchymyn gwarchod coed rhif 25 Dinorwig. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C20/0901/18/LL - Holsten House, Penisarwaun**

Cais i godi tŷ deulawr ar wahân a Gwaith cysylltiol. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C20/0949/18/LL - Tan y Buarth, Deiniolen**

Cais ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid a storio porthiant. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C20/0971/18/DT - 24 Bro Eglwys, Bethel**

Cais deiliad tŷ ar gyfer codi estyniad un llawr (llawr cyntaf) i ochr yr eiddo. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C19/0415/18/LL - Bakhita, Bethel**

Codi un tŷ deulawr a datblygiadau cysylltiol. Ni does gan y cyngor wrthwynebiad i'r datblygiad cyn belled bod amod fod y gordyfiant ar y tir ger yr eiddo yn cael ei glirio oherwydd y peryg i deithwyr a cherddwyr ar y lôn.

### **Llwybrau**

**Giât Mochyn, Carreg y Gath** - Derbyniwyd llythyr yn ôl mewn ymateb i'n cwyn o bwll tyf o ddŵr ger y giât. Derbyniwyd ymateb eu bod am edrych i mewn i'r ffordd ymlaen i wared a'r pwll dŵr. Yn naturiol bydd angen trafod anghenion a mynediad i'r tir gyda'r perchennog. Cyngor Sir I roi gwybod i ni unwaith bydd trefniadau yn eu lle.

**Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich**, Deiniolen - Derbyniwyd llythyr ymatebol o Gyngor Gwynedd yn nodi fod mater y giat electronic ar y llwybr yma wedi ei roi at sylw'r swyddog gorfodaeth yr Uned. Yna mae wedi mynd ymlaen at gyfreithiwr Y Cyngor er mwyn derbyn gwybodaeth os yw lleoli'r math o giât ar lwybr cyhoeddus yn gyfreithiol.

**Cae Goronwy** - Yn dilyn ein cwyn llynedd i'r Cyngor Sir am ein pryder am y llwybr hynafol hwn, cafwyd adroddiad brawychus fod y perchennog y tŷ yn parhau i newid gwedd y llwybr. Bellach, yn dilyn ymweliad a'r ardal mae Decking wedi cael ei osod lle oedd cychwyn y llwybr, ynghyd a dôr wedi ei gosod lle oedd giât cynt. Mae arwyddion o Eiddo Preifat wedi eu gosod ar y lôn a'r llwybr lawr i'r tŷ. Mae hyn yn profi fod angen gwarchod ac annog pobl i gerdded y llwybrau ac anfon adroddiadau fel hyn i'r cyngor.

### **Cyllideb a Praesept**

Rydym angen edrych ar y gyllideb a gosod cyllideb 3 blynedd. Mae eleni wedi bod yn gyfnod anodd, lle bu ychydig o weithredu oherwydd argyfwng a covid 19. Yn sicr mae cerdded y llwybrau gan drigolion yr ardal yn ystod y cyfnod clo wedi amlygu sawl diffyg a gwendidau o fewn llwybrau'r plwyf. Felly, mae'r Cyngor angen canolbwyntio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf efallai yn edrych ar beth allwn wneud i gadw neu wella cyflwr y llwybrau. Penderfynwyd cynnal pwyllgor cyllid ym mis Ionawr er mwyn gosod cyllideb 3 blynedd a phenderfynu a braesept y flwyddyn nesaf.

### **Hysbysfyrdau**

Yng nghyfarfod mis Tachwedd penderfynwyd edrych i roi hysbysfyrdau ym mhob pentref. Yn naturiol bydd rhaid cael amcan brisiau a chaniatâd cynllunio, ond mae'r Cyngor yn

edrych i mewn i weld os oes posib gosod yn y manau canlynol:

Bethel - Tu allan i'r Ysgol neu Neuadd

Rhiwlas - Ger y Ciosg Diffib

Penisa'r-waun -0 Tu allan i'r Ysgol

Deiniolen - Tu allan i'r Ysgol

### **O gwmpas y Bwrdd**

Penisa'r-waun - Dŵr ar y ffordd o'r Hen Ficerdy I Dan y Gaer. Gyrru cais I Gyngor Gwynedd I llnau gwteri.

Lon Perthi - Cais I Gyngor Gwynedd I glirio ffosydd ar y lôn fel bod y dŵr yn mynd lawr.

Llys Arwyn - Dŵr yn casglu yn ofnadwy tu allan.

Deiniolen

Caban - Dywedodd Elfed fod cynlluniau ar dro i wneud Y Caban o dan yr ysgol i fyny.

Nodwyd eu bod rhy hwyr eleni i roi cais am rodd ariannol, ond y bod yn syniad gyrru

llythyr i mewn i'r Cyngor Cymuned eleni gyda'u bwriad a neu gynlluniau am yr ystafell, fel bod Y Cyngor yn ymwybodol o hyn erbyn y flwyddyn nesaf.

Daeth Y Cyfarfod I ben. Hoffai'r Cyngor ddiolch i'r holl aelodau am geisio eu gorau yn

ystod flwyddyn sydd wedi bod dan amgylchiadau anodd iawn i sawl aelod ac i'r Cadeirydd am ei arweiniad gwych yn ystod cyfnod o orfod gwneud penderfyniadau anodd. Dymunwn Nadolig Llawn I bawb, a gobaith am Flwyddyn Newydd fydd yn well yn 2021.

Yn hytrach na chynnal Cyfarfod llawn, penderfynwyd cynnal Is bwyllgor Cyllid ym mis Ionawr.